

NEWYDDLEN DEMOGRAFFEG

Llywodraeth Cymru, Medi 2017




PRAWF CYFRIFIAD 2017

Ym mis Ebrill 2017, cynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) prawf yng Nghymru a Lloegr i baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021. Fel rhan o'r prawf, estynnwyd gwahoddiad i 100,000 o aelwydydd ar draws saith awdurdod lleol i gymryd rhan. Powys oedd un o'r ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer y prawf.

Mae'r Dilyniant i Brawf Cyfrifiad 2017 yn arolwg gwerthuso o Brawf Cyfrifiad 2017. Estynnir gwahoddiad i sampl o'r aelwydydd sydd wedi'u dewis ar gyfer y prawf cyfrifiad (gan gynnwys rhai ym Mhowys) gymryd rhan yn yr arolwg.

Nod yr arolwg yw casglu data i helpu'r ONS i fesur lefel dealltwriaeth, gallu, parodrwydd ac agweddau'r cyhoedd tuag at gwblhau'r prawf cyfrifiad ar-lein, a fydd maes o law yn helpu'r ONS i wella ei gynnwys, a chwmpas ac ansawdd yr ymatebion i Gyfrifiad 2021.




MUDO RHYNGWLADOL HIRDYMOR

Ym mis Awst, cyhoeddodd yr ONS [Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#).

Mae'r gyfres o Adroddiadau Chwarterol yn dwyn ynghyd yr ystadegau ar fudo a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r ONS.

Mae amcangyfrifon yr [Arolwg Teithwyr Rhyngwladol](#) ar gyfer mudo rhyngwladol hirdymor (hynny yw, dros 12 mis) yn dangos, ar gyfer Cymru yn 2015, bod 10,000 o fewnfudwyr o'r UE ac 8,000 o fewnfudwyr o wledydd y tu allan i'r UE; a 3,000 o allfudwyr i'r UE a 1,000 o allfudwyr i wledydd y tu allan i'r UE.



AMCANGYFRIFON POBLOGAETH CANOL BLWYDDYN 2016

Cyhoeddwyd [amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2016](#) ar gyfer poblogaeth gwledydd y DU gan yr ONS ym mis Mehefin 2017.

Yr amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer poblogaeth Cymru yn 2016 oedd 3,113,200; cynnydd o 0.5 y cant o gymharu ag amcangyfrif canol 2015.

Amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a throsodd yn byw yng Nghymru (635,000) na phlant 0 i 15 oed (557,000).

Yr amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer poblogaeth y DU yn 2016 oedd 65,648,000; cynnydd o 0.8 y cant o gymharu â'r amcangyfrif ar gyfer canol 2015 (mae'r gyfradd dyfu hon yn debyg i'r gyfradd dyfu gyfartalog flynyddol ers 2005).



AMCANESTYNIADAU POBLOGAETH Y PARCIAU CENEDLAETHOL

Cyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol Cyntaf
[Amcanestyniadau Poblogaeth ar sail 2014 ar gyfer Parciau
Cenedlaethol yng Nghymru](#) ar 26 Gorffennaf 2017.

Ynndo, rhwng 2014 a 2029:

- rhagwelir y bydd poblogaethau parciau cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri

yn gostwng, a phoblogaeth parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynyddu (roedd yr amcanestyniadau ar sail 2013 yn nodi y byddai poblogaethau'r tri pharc cenedlaethol yn gostwng);

- amcangyfrifir y bydd cyfanswm y boblogaeth sy'n byw mewn parc cenedlaethol yng Nghymru (81,800 yn 2014) yn gostwng 4.9 y cant i 77,900;
- amcangyfrifir y bydd poblogaeth Bannau Brycheiniog (33,600 yn 2014) yn cynyddu 1.9 y cant;
- amcangyfrifir y bydd poblogaeth Arfordir Penfro (22,700 yn 2014) yn gostwng 12.3 y cant;
- amcangyfrifir y bydd poblogaeth Eryri (25,500 yn 2014) yn gostwng 6.6 y cant;
- amcangyfrifir y bydd nifer y bobl dan 74 oed sy'n byw yn y tri pharc cenedlaethol hyn yn gostwng, ac amcangyfrifir y bydd nifer y bobl 74 oed neu drosodd yn cynyddu.



AMCANESTYNIADAU AELWYDYDD Y PARCIAU CENEDLAETHOL

Cyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol Cyntaf
[Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Parciau Cenedlaethol
yng Nghymru yn 2014](#)
ar 26 Gorffennaf 2017.

Ynndo, rhwng 2014 a 2029:

- roedd amcanestyniadau aelwydydd y parciau cenedlaethol ar sail 2014 yn uwch na'r amcanestyniadau aelwydydd a gyhoeddwyd yn flaenorol ar sail 2013 o ran niferoedd yr aelwydydd a niferoedd y bobl sy'n byw ynddynt;
- ym Mannau Brycheiniog, amcangyfrifir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu 5 y cant. Amcangyfrifir y bydd niferoedd yr aelwydydd yn y ddau barc cenedlaethol arall yn gostwng (Arfordir Penfro o 10 y cant ac Eryri o 5 y cant).
- amcangyfrifir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn y tri pharc cenedlaethol yn gostwng yn raddol o 2.14 o bobl fesul aelwyd i 2.05.



Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf *Amcangyfrifon Aelwydydd ar gyfer Cymru, canol 2016* yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Medi 2017. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer canol 2016 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017.

Cysylltu

Ffôn: 03000 255058; E-bost: stats.popcensus@wales.gsi.gov.uk

This document is also available in English.

